Yr Isafswm Safon ar gyfer y Gwasanaeth Gosodiadau

Mae Newydd yn anelu i'w gwneud mor syml ag sydd modd i chi symud i'ch cartref newydd. Pan symudwch i'ch cartref bydd yn ddiogel ac yn gadarn a bydd rhai gweithiau wedi eu gwneud. Islaw rhoddir manylion y safon y dylech ei ddisgwyl pan symudwch i mewn. Medrir gwneud peth gwaith arall ar ôl i chi symud i mewn. Rhoddir manylion hyn yn eich pecyn cyflwyno. Dywedir wrthych am hyn pan fyddwch yn gweld eich cartref newydd.

Cyffredinol

- Ni fydd sbwriel yn yr adeilad na'r ardd.
- Bydd unrhyw asbestos wedi ei wirio a rhoddir gwybodaeth lle bo angen.
- Bydd unrhyw larymau tân a system mynediad drws wedi eu gwirio

Lloriau a Grisiau

- Bydd y rhain yn ddiogel ac mewn cyflwr da fel y medrir gosod gorchuddion llawr
- Bydd gorchuddion llawr mewn cyflwr da ac yn cydweddu mewn ceginau, ystafelloedd ymolchi a thoiledau

Drysau a Ffenestri

- Bydd pob drws allanol yn gadarn ac yn cadw'r tywydd allan.
- Bydd dwy set o allweddi drysau ar gael
- Bydd pob ffenestr yn gadarn ac yn agor a chau'n rhwydd
- Bydd drysau mewnol ym mhob ystafell

Yr Isafswm Safon ar gyfer y Gwasanaeth Gosodiadau

Gwaith trydan

- Bydd yr holl waith trydan wedi ei wirio a bydd yn gweithio'n ddiogel
- Bydd o leiaf un soced yn y cyntedd, dwy soced ddwbl yn y lolfa, un soced ddwbl yn yr ystafell fwyta, un soced ddwbl mewn ystafelloedd gwely a thair soced ddwbl yn y gegin (os yn ymarferol)
- Bydd gan y gegin soced ar gyfer rhewgell a pheiriant golchi, a phwynt ffwrn drydan neu bwynt cysylltu ffwrn nwy
- Bydd caead cadarn ar y bwrdd defnyddwyr, set lawn o ffiwsys a bydd pob cylched wedi'i labelu

Nwy

- Bydd yr holl waith gosod nwy wedi ei wirio a rhoddir tystysgrif diogelwch nwy landlord

Gwresogi

- Bydd gan yr eiddo system wresogi sy'n gweithio'n iawn
- Bydd dŵr poeth ar gael o'r system wresogi
- Bydd lefelau addas o awyriant ac insiwleiddiad i sicrhau fod gwres yn cael ei ddosbarthu'n dda o fewn ystafelloedd.

Plymio

- Bydd yr holl waith plymio yn dal dŵr
- Bydd plygiau a chadwyni ym mhob sinc a bath
- Bydd y tap cau o'r brif bibell ddŵr wedi ei labelu'n glir
- Bydd yr holl offer glanweithdra yn lân ac yn gweithio'n dda heb galch wedi crynhoi
- Bydd o leiaf tri chwrs o deils gwyn 150mm o amgylch y bath a thu ôl i sinciau
- Os oes cawod, bydd teilsio i'r nenfwd o amgylch y bath

Yr Isafswm Safon ar gyfer y Gwasanaeth Gosodiadau

Ceginau

- Bydd o leiaf dri chwpwrdd storio fel y medrir cadw bwyd ar wahân i ddeunyddiau glanhau
- Bydd o leiaf dri chwrs o deils tu ôl i'r byrddau gwaith
- Os oes angen newid y gegin, gwneir hyn pan fyddwch yn byw yno fel y medrwch ddweud eich barn am olwg a dyluniad y gegin.

Addurno

- Y tenant sy'n gyfrifol am addurno mewnol. Medrir ailaddurno, neu ar ddisgresiwn Newydd medrir rhoi talebau addurno i'ch cynorthwyo i ailaddurno eich cartref newydd
- Bydd plaster waliau a nenfwd mewn cyflwr da

Allanol

- Bydd gan unrhyw garej neu sied ddrysau sy'n gadarn ac yn gweithio
- Bydd rhannau o laswellt mewn gerddi wedi eu strimio a'u gadael yn barod i chi eu cynnal